



Archifau Morgannwg



DARGANFOD Y GORFFENNOL



Cynnwys



<i>Cyflwyniad</i>	2
<i>Sgiliau</i>	3
<i>Gwirfoddoli gydag Archifau Morgannwg</i>	4
<i>Datblygiad Staff</i>	7
<i>Ymgysylltiad Cymunedol</i>	8
<i>Cyhoeddusrwydd</i>	14
<i>Y Casgliad</i>	16
<i>Partneriaethau</i>	19
<i>Cadwraeth</i>	20
<i>Ystafell Chwilio ac Ymholiadau</i>	24
<i>Addysg</i>	26

Cyflwyniad

Yn sgil yr ymateb da i Adroddiad Blynyddol cyntaf Archifau Morgannwg, rydym wedi penderfynu llunio adroddiad arall. Yn dilyn adroddiad y llynedd, cafwyd ymweliadau gan, ymysg eraill, Arweinydd a Phrif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ac Arglwydd Faer a Phrif Weithredwr Cyngor Caerdydd. Gobeithio bydd y cyhoeddiad hwn o ddiddordeb i aelodau o'n hawdurdodau ariannu sydd newydd eu penodi ac yn rhoi darlun ehangach o'n dyheadau a'n llwyddiannau i ddefnyddwyr presennol ein gwasanaethau cyhoeddus.

Mae'r gweithgareddau sy'n cael eu disgrifio isod yn berthnasol i'r cyfnod rhwng 1 Mawrth 2011 a 29 Chwefror 2012, ein blwyddyn adrodd i Gyd-bwyllgor Archifau Morgannwg. Er bod cyllidebau yn parhau i fod yn gymharol iach, bu'r flwyddyn yn un llawn her, yn enwedig gan ei bod yn bosibl y bydd canlyniadau adolygiad Cyngor Caerdydd o gyflogau staff yn arwain at incwm 80% o staff Archifau Morgannwg yn lleihau. Mae'r broses apeliadau wedi cymryd llawer o amser, ond nid yw gwasanaethau wedi'u cyfyngu hyd yn hyn.

Mae'n debyg mai cynhwysiant a'r hyn rydym yn ei wneud i hybu sgiliau a hyrwyddo dyheadau ein holl gymunedau lleol yw thema'r adroddiad hwn. Mae hyblygrwydd ac arloesedd yn hollbwysig wrth gyflawni'r amcanion hyn ac maent ymhlith gwerthoedd craidd y gwasanaeth. Mae'r adroddiad yn nodi cyfraniad Archifau Morgannwg at amcanion datganedig Llywodraeth Cymru ar gyfer diwylliant a threftadaeth Cymru: sicrhau'r cyfranogiad mwyaf, ehangu mynediad, targedu teuluoedd incwm isel a phlant yn benodol, a hybu'r iaith Gymraeg.

Sgiliau

Roedd yn bleser gan Archifau Morgannwg gymryd rhan ym mlwyddyn beilot Gwobr Arweinyddiaeth Strategol Llywodraeth Cymru. Bydd y wobwr yn cydnabod sefydliadau sy'n arddangos priodweddau arweinyddiaeth o'r radd flaenaf. Mae wedi bod yn broses werthfawr iawn ar ôl cymaint o flynyddoedd yn canolbwyntio ar yr adeilad newydd. Er bod cynlluniau ar waith ar gyfer gweithgareddau ar ôl symud, bu'n ddefnyddiol i'w profi yn erbyn blaenoriaethau presennol yn lleol ac yn y byd ehangach, a sicrhau bod adnoddau ar gael i geisio cyflawni amcanion a nodwyd.

Mae hyfforddiant wedi'i nodi fel maes allweddol yn y dyfodol. Nid yn unig dylai staff gael eu hyfforddi yn llawn i ddarparu gwasanaethau, ond mae gan y swyddfa'r potensial bellach i ddod yn ganolfan ranbarthol ar gyfer datblygiad yn y sector. Mae'r ystafelloedd sydd ar gael i'w llogi gan gyrff allanol yn rhoi hwb i'r dyhead hwn wrth i fwy o sefydliadau sector cyhoeddus sy'n gwerthfawrogi ein cyfleusterau rhagorol a'n prisiau cystadleuol eu llogi ar gyfer sesiynau hyfforddi.

Mae staff yr Archifau wedi cyfrannu at waith y grŵp llywio sy'n datblygu Fframwaith Credydau a Chymwysterau i Gymru er mwyn helpu dysgwyr i ennill cymwysterau wrth eu pwysau, yn eu gweithle eu hunain ar hyd llwybrau hyblyg. Cynhaliwyd gweithdai i hyrwyddo'r fframwaith yn Archifau Morgannwg gan NIACE Dysgu Cymru (Y Sefydliad Cenedlaethol dros Addysg Barhaus i Oedolion yng Nghymru). Mae NIACE yn siarad ar ran dysgwyr sy'n oedolion a darparwyr, gan ganolbwyntio'n benodol ar y rhai lleiaf medrus, mwyaf difreintiedig a'r rhai sy'n wynebu rhwystrau i ddysgu oherwydd diffyg cymhelliad ac amgylchiadau economaidd a chymdeithasol. Bydd Dysgu Gydol Oes gyda Sicrwydd Ansawdd yn cael ei ddefnyddio i nodi datblygiad sgiliau gwirfoddolwyr a staff.

Gwirfoddoli gydag Archifau Morgannwg

Mae gwirfoddolwyr yn parhau i dderbyn pob anogaeth bosibl. Mae adeilad newydd yr Archifau wedi arwain at fwy o gyhoeddusrwydd a rhagor o geisiadau gan ddarpar wirfoddolwyr o bob math. Er mwyn ymateb i hyn, mae'r rhaglen wedi'i throï'n fwy ffurfiol. Mae Llawlyfr Ymsefydlu yn rhoi cyflwyniad i'r Archifau, gwybodaeth iechyd a diogelwch a manylion gweithdrefnau. Mae'r Polisi Gwirfoddoli wedi'i adolygu ac mae yna ffurflen gais hefyd; yr oll ar gael ar wefan y Swyddfa.



Mae rhaglen bythefnos strwythuredig wedi'i chyflwyno ar gyfer myfyrwyr sy'n ystyried archifau fel gyrfau bosibl yn y dyfodol. Mae myfyrwyr yn treulio amser ym mhob rhan o'r swyddfa ac yn gwneud gwaith catalogio am wythnos. Mae eu hadborth yn helpu i werthuso'r rhaglen barhaus ac mae croeso iddynt ddychwelyd i ymuno â phrosiect gwirfoddolwyr mwy hirdymor.

Mae'r archifydd sy'n gyfrifol am ddatblygu'r rhaglen wirfoddolwyr ac am reoli gwirfoddolwyr wedi cwblhau cwrs rheoli prosiectau ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae hi'n cynrychioli Cymru ar Is-bwyllgor Gwirfoddoli'r Grŵp Ansawdd Gwasanaethau Cyhoeddus (PSQG). Rhwydwaith anffurfiol ar gyfer archifyddion sy'n ymddiddori mewn arferion gorau a materion ansawdd yw'r grŵp. Nod yr is-bwyllgor yw gwella arferion gwirfoddoli yn y sector archifau; cynyddu nifer ac amrywiaeth y cyfleoedd gwirfoddoli a sicrhau bod cyfraniad ac effaith gwirfoddoli yn cael eu gwerthuso a'u dathlu.

Mae dulliau eraill o farchnata'r rhaglen wirfoddoli yn cael eu hystyried. Rydym wedi cofrestru gyda Go Wales, asiantaeth recriwtio sy'n arbenigo mewn canfod cyfleoedd gwaith i fyfyrwyr a graddedigion newydd, fel darparwr cyfnodau blas ar waith: cyfnodau profiad gwaith byr, hyblyg, di-dâl sydd â'r nod o helpu israddedigion i ddysgu am sector busnes neu yrfa benodol. Rydym hefyd wedi cofrestru gyda'r Ganolfan Byd Gwaith ar gynllun profiad gwaith newydd sy'n helpu i dalu costau teithio yn ystod lleoliadau. Mae lleoliadau wedi'u trefnu trwy'r ddwy asiantaeth.



Dyma'r ystadegau ar gyfer y flwyddyn:

- Cyfanswm y gwirfoddolwyr: 37
- Oriau a gyfrannwyd: 2,478
- Lleoliadau profiad gwaith disgyblion ysgol: 11

Mae myfyrwyr ysgol wedi dod o Ysgol Uwchradd Llanisien, Ysgol Gyfun Radur, Ysgol Gyfun y Bont-faen, Ysgol Gyfun Brynteg, Pen-y-bont ar Ogwr a Bryste.



Mae gwirfoddolwyr wedi cyfrannu at:

Lanhau ac ail-becynnu Cytundebau Criw Caerdydd (DCA).

Catalogio llyfrgell a chasgliad pamffledi astudiaethau lleol ar gatalog electronig CALM.

Sganio sleidiau gwyrdr a'u rhoi ar y catalog electronig.

Glanhau a chatalogio cynlluniau adeiladu gan gyngor Pen-y-bont (UDBR).

Cronfa ddata o dros 850 o ffeiliau personol Heddlu Morgannwg.

Cofnodi a golygu catalogau ar gatalog electronig CALM.

Mae adborth gan wirfoddolwyr ar y gwelliannau wedi bod yn galonogol:

'Fe gafodd fy lleoliad profiad gwaith ei drefnu mewn ffordd broffesiynol iawn, roedd y profiad yn hynod ddiddorol ac roeddech chi a'ch cydweithwyr yn gyfeillgar ac yn barod iawn eich cymorth...ar ôl cwblhau'r lleoliad hwn mae gennyf well syniad o lawer pa feysydd gwaith sy'n apelio ataf.'

Datblygiad staff

Mae'n hawdd dechrau gorffwys ar eich rhwyfau mewn adeilad newydd sbon, felly mae wedi bod yn bwysig atgoffa staff bod modd i ni ddysgu gan lefydd eraill o hyd. Trefnwyd ymweliadau hyfforddi â'r Archifau Cenedlaethol yn Kew, Archifau Gwent sydd wedi agor yn ddiweddar yng Nglynebwy a Llyfrgell Ganolog Caerdydd. Mae staff proffesiynol a gweithredol yn cymryd rhan yn yr ymweliadau hyn ac maent yn cael cyfle i dreulio amser mewn adrannau sy'n berthnasol i'w gwaith eu hunain.

Mae archifyddion wedi mynychu seminarau ar ddefnyddio delweddau a lanlwytho catalogau i'r Wefan Archifau, sy'n gwe-letya catalogau o dros 200 o ystorfeydd ym Mhrydain. Mae'n cael ei hariannu gan y Cydbwyllgor Systemau Gwybodaeth ac yn cael ei defnyddio gan ymchwilwyr y sector Addysg Uwch yn bennaf. Maent wedi'u hyfforddi ym meysydd cadwraeth ddigidol, ariannu allanol ar gyfer gwasanaethau archifau, a defnyddio Pecyn Cymorth Asesiad o Effaith Economaidd a ddatblygwyd yn ddiweddar i nodi faint o arian y mae sefydliadau treftadaeth yn ei gynhyrchu i'r economi leol o gymharu â'u cost. Mae aelodau o'r Tîm Cadwraeth wedi mynychu seminarau ar reoli amgylcheddol a methodolegau gofalu am gasgliadau. Maent wedi cael hyfforddiant ar ddefnyddio modiwl cadwraeth CALM ac ar agweddau penodol ar waith mainc, ac maent wedi hyfforddi cydweithwyr i drafod dogfennau ac asesu anghenion cadwraeth. Mae aelodau o'r Tîm Mynediad wedi mynychu cyrsiau ar Ymgysylltiad Cymunedol ac Ymwybyddiaeth Ddiwylliannol o dan ofal *Race Equality First*. Maent wedi'u hyfforddi i ddefnyddio'r bwrdd gwyn rhyngweithiol a brynwyd i wella ein gwasanaeth i ysgolion. Mae staff gweinyddol wedi derbyn hyfforddiant ar ddefnyddio'r we er mwyn ein helpu i hyrwyddo'r gwasanaeth yn allanol. Gan eu bod bellach yn gyfrifol am ateb pob ymholiad ffôn, maent wedi derbyn hyfforddiant ychwanegol i'w helpu i ateb cwestiynau rheolaidd a chwilio drwy'r catalog electronig.

Bydd unrhyw un sy'n bwriadu ymweld â'r adeilad yn falch o gael gwybod bod y gweithdrefnau gadael mewn argyfwng wedi'u cwblhau a bod yr holl staff wedi cael hyfforddiant llawn, gan gynnwys hyfforddiant ar weithredu cadeiriau gwagio ar gyfer y grisiau. Mae 5 aelod o staff wedi cymhwyso fel swyddogion cymorth cyntaf hefyd.

Ymgysylltiad cymunedol

Buom yn ffodus o safbwynt ein cyfleoedd partneriaeth eleni, ac maent wedi ein helpu i ddangos manteision a ffyrdd o ddefnyddio ffynonellau dogfennol i bobl nad ydynt yn defnyddio ein hadnoddau yn rheolaidd. Diolch i'r prosiectau hyn, rydym yn gweithio gyda chydweithwyr mewn sawl sector i baratoi dynion ifanc di-waith o ardaloedd difreintiedig ar gyfer swyddi mewn sefydliadau treftadaeth, annog pobl sydd wedi'u hallgáu o gymdeithas i archwilio cefndir y ffordd maent yn cael eu trin, a chyflwyno dwy genhedlaeth o gymunedau mewnfudwyr i'w gilydd ac i hanes aml-ethnig cyfoethog eu dinas. Mae'r partneriaethau hyn wedi bod yn llwyddiannus iawn a byddant yn parhau i gael eu datblygu yn y dyfodol.

Diogelu Treftadaeth Cymunedau Lleol (CLOCH)

Prosiect a ariennir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri yw CLOCH, ac mae'n rhan o'r rhaglen "Sgiliau ar gyfer y Dyfodol". Mae'r prosiect yn darparu deg bwrsari ar gyfer dynion di-waith lleol o dan 30 oed i'w helpu i ennill sgiliau, profiad a dysgu achrededig yn y sector treftadaeth. Mae staff y prosiect yn gweithio yn yr Archifau ac mae'r hyfforddeion yn treulio eu 3 mis cyntaf yma yn cael hyfforddiant sylfaenol cyn cael eu lleoli mewn amrywiaeth o sefydliadau ledled y De. Cafodd aelodau'r criw cyntaf eu lleoli yn Abertawe, Cwmbrân a Thredegar ym mis Ebrill yn dilyn cyfnod ymsefydlu pan gawsant gyfle i fynychu dau ddiwyddiad yn y Senedd a chyfle i ddangos eu gwaith i ymwelwyr â'r Archif gan gynnwys y Gweinidog dros Dreftadaeth a Llysgennad yr Ukrain.



Ysbyty Trelái

Mae prosiect Ysbyty Trelái Pobl yn Gyntaf Caerdydd yn rhoi cyfle i bobl ag anableddau dysgu adrodd eu hanesion am fywyd yn yr ysbyty. Mae cyn aelodau o staff, perthnasau a ffrindiau yn ychwanegu eu hatgofion, ac mae cofnodion yr ysbyty sy'n cael eu cadw yn yr Archifau yn rhoi'r cefndir hanesyddol. Cynhaliwyd cyfarfodydd grŵp y prosiect yma ac aeth aelodau'r grŵp ati i wneud gwaith ymchwil ar gyfer arddangosfa Stori Caerdydd. Bu aelodau o staff yn cynorthwyo gyda'r lansiad ac mae sawl eitem yn ymwneud â'r ysbyty wedi'i derbyn gan ymwelwyr â'r arddangosfa.

http://www.youtube.com/watch?v=6_Mlc-V95CQ

<http://www.youtube.com/watch?v=zMrUK-IFH-g&feature=plcp>



Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol

Cafodd yr archifau wahoddiad i ymuno â grŵp llywio prosiect HLF Canolfan Ragoriaeth pobl LHDT Cymru yng Nghaerdydd, sy'n casglu hanesion llafar y gymuned ledled Cymru. Mae'r prosiect wedi ehangu i gynnwys llinell amser ar gyfer eu gwefan ac ymchwil i ffynonellau dogfennol perthnasol. Mynychodd staff yr archif Iansiad Mis Hanes pobl LHDT yn y Senedd ac aethant ymlaen i gyfrannu at gynhadledd ryngwladol a drefnwyd gan y Ganolfan Ragoriaeth, ac at ddigwyddiad *Talking Heads* Stori Caerdydd. Cawsant hyfforddiant hefyd ar ddarganfod a hyrwyddo hanes cudd pobl LHDT. Mae cyfweiliad ag Archifydd Morgannwg ar gael yn: <http://lgbtec.org.uk/video/susan-edwards-lgbt-history-month-cymru-wmp-wmv>



Archifau Seneddol

Roedd y prosiect gyda'r Archifau Seneddol, *Dros Donnau Amser: Caerdydd, Pobl a'r Senedd*, yn dangos effaith penderfyniadau'r Senedd ar gymunedau lleol. Datblygiad y dociau oedd pwnc ein hastudiaeth achos, ac aethom ati i'w archwilio ar draws y cenedlaethau gyda myfyrwyr blwyddyn 5 o Ysgol Gynradd Mount Stuart ac aelodau Cymdeithas Hanes Lleol Grangetown.

Treuliodd y myfyrwyr ysgol ddiwrnod yn yr Archifau. Ar ôl cael taith o gwmpas yr adeilad, cwis, picnic a chyfle i redeg o gwmpas ar y glaswellt, aethant ati i edrych ar gofnodion gwreiddiol ardal dociau'r ddinas a chwilio am dirnodau cyfarwydd ar y mapiau. Defnyddiwyd cofnodion y cyfrifiad i fapio cenedligrwydd trigolion ar globau chwyddadwy, a chymharu hynny gyda gwreiddiau eu teuluoedd eu hunain. Aeth y disgyblion ar daith gerdded ym Mae Caerdydd o dan arweiniad aelodau o staff i edrych ar adeiladau a sut roedden nhw wedi newid, gan ddefnyddio copïau o ffotograffau i'w cymharu. Yn ôl yn yr ystafell ddosbarth, aethant ati i greu darnau o waith celf ar gyfer arddangosfa yng Nghanolfan Mileniwm Cymru a oedd hefyd yn dangos gwaith Cymdeithas Hanes Lleol Grangetown.





Nid oedd y rhan fwyaf o aelodau'r Gymdeithas wedi bod mewn archifdy o'r blaen, ac roedd eu gwaith ymchwil yn canolbwyntio ar bedwar unigolyn a gyflwynodd dystiolaeth i bwyllgorau seneddol yn ystod y broses o basio deddfwriaeth a noddwyd gan Ardalydd Bute i ddatblygu'r dociau yng Nghaerdydd ym 1830 a 1866. Aeth y ddau grŵp i Lundain ar ddiwedd y prosiect ar gyfer taith o Ddau Dŷ'r Senedd ac ymweliad â'r archifau yno.




Cafodd yr holl weithgareddau gydag Ysgol Gynradd Mount Stuart a Chymdeithas Hanes Lleol Grangetown eu ffilmio gan fyfyrwyr Ysgol y Diwydiannau Creadigol a Diwylliannol, Prifysgol Morgannwg. Cafodd dwy ffilm fer eu cynhyrchu sydd i'w gweld ar wefan yr Archifau Seneddol. Cafodd y ffilmiau eu dangos fel rhan o'r arddangosfa ac maent bellach ar gael ar You Tube:

<http://www.youtube.com/watch?v=agNgGldEC-A>

<http://www.youtube.com/watch?v=ctjVO6Nkogl>

I gyd-fynd â'r prosiect, traddodwyd cyfres o ddarlithiau haf gan staff yr Archifau Seneddol yn adeilad Archifau Morgannwg. Roedd y pynciau yn amrywio o 'Sources for Local and Family History at the Parliamentary Archives', i 'The Great Fire of Westminster 1834'. Roedd y darlithoedd yn boblogaidd (hwyrach bod y teisennau cri a'r coffi am ddim yn ffactor) a byddwn yn trefnu rhagor o ddigwyddiadau tebyg eleni.




Cynhaliwyd cyfres o bum gweithdy cyhoeddus yn ystod yr hydref. Roedd y gweithdai dwyawr yn canolbwyntio ar gyflwyniadau hanfodol i ddefnyddio archifau: Eich Rhoi Ar Ben Ffordd yn Archifau Morgannwg; Hanes Teuluol ar y Rhyngrwyd; Darllen Hen Lawysgrifen; Gofalu am y Gorffennol, a Mapiau a Chynlluniau. Roedd y gyfres yn boblogaidd iawn ac roedd y rhan fwyaf o'r sesiynau yn llawn dop. Byddant yn cael eu cynnal yn rheolaidd o hyn ymlaen.

Defnyddiwyd digwyddiad Drysau Agored Caerdydd ym mis Medi i ddenu sylw cynulleidfa ehangach at yr adeilad newydd. Roedd modd cael taith o gwmpas yr adeilad ar ddydd Sadwrn ac roedd staff ar gael tan 4pm. Roedd y digwyddiad yn boblogaidd iawn, yn enwedig o ystyried bod Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd yn chwarae gartref ar yr un pryd.

Cyhoeddusrwydd

Rydym yn manteisio ar gyfleoedd cyhoeddusrwydd ar y radio a'r teledu er mwyn hyrwyddo ein gwasanaethau. Mae staff wedi cyfrannu at drafodaethau radio ar Wikipedia, hanes tai a chyfrifiad 2011 ac wedi cynnig ryseitiau hanesyddol i wrandawyr Radio Caerdydd yn ystod wythnos genedlaethol selsig. Mae llawer mwy o bobl yn ymwybodol bellach bod modd ffilmio a recordio ar safle'r Archifau. Yn ystod y flwyddyn, mae staff wedi ymddangos ar BBC Cymru ac S4C i siarad am ddogfennau yn ymwneud â hanes menywod (ar gyfer canmlwyddiant Diwrnod Rhyngwladol y Menywod), Comin Greenham (i goffáu deng mlynedd ar hugain ers yr orymdaith i'r gwersyll), hunaniaeth genedlaethol yn ardaloedd Senghennydd ac Abertridwr, a chasgliad Bleddyn Williams (i gyd-fynd â chwpan rygbi'r byd).

Dyfynnwyd aelodau o staff mewn erthygl ym mhapur newydd y *Wales on Sunday* yn trafod Ffortiwn y Teulu Edwards yn dilyn y cyhoeddiad bod ffilm newydd yn cael ei chynhyrchu yn seiliedig ar yr hanes. Cafodd dogfennau eu ffilmio yn yr ystafell chwilio ar gyfer rhaglenni i gofio'r blitz yn Abertawe, y Streic Gyffredinol, taith Scott i'r Antarc'tig ac arcedau siopa. Defnyddiwyd gwaith ymchwil Archifau Morgannwg ar gyfer cyfres ddiweddar y BBC, *Mixed Britannia*. Cafodd *Time Team* Channel 4 gyfle i ddefnyddio Ordinhadau Bwrdeistref Cynffig ar leoliad o dan oruchwyliaeth agos.



Mae'r holl raglenni yn cydnabod yr Archifau, ac fel arfer maent yn dangos y dogfennau a ddefnyddiwyd ar eu gwefannau am gyfnod wedyn. Mae'r rhaglenni hefyd yn arwain at ymholiadau gan bobl sydd wedi eu gweld, ac mae ambell un yn rhoi eitemau. Mae'r adeilad wedi'i ddefnyddio hefyd i ffilmio golygfa o bennod yn y gyfres ddrama boblogaidd, *Being Human*. Nid yw'r adeilad yn debygol o gael ei ddefnyddio mwy oherwydd hyn, ond mae wedi bod yn ddifyr iawn i'r staff.

Mae'r diddordeb yn John Hughes a Hughesovka yn parhau. Cafwyd ymweliad gan bedwar ymchwilydd o'r Ukrain ym mis Gorffennaf i ddefnyddio Archif Ymchwil Hughesovka fel rhan o brosiect hanes lleol. Aethant ati i ffilmio Archifydd Morgannwg yn trafod gwaith y Swyddfa ar hanes Hughes. Yn ystod eu cyfnod yma, galwodd disgynnydd un o'r gweithwyr o Gymru i wneud gwaith ymchwil a rhoi llun o garreg fedd ei daid. Mae'r gofeb i Hughes ym mynwent Norwood wedi'i hadnewyddu; ymgynghorwyd ag Archifydd Morgannwg sydd wedi hwyluso cyswllt rhwng Cyfeillion y fynwent a'r teulu Hughes. Mae hefyd wedi cynorthwyo ffotograffydd sy'n bwriadu ymweld â Donetsk i dynnu lluniau o'r dylanwad Cymreig sy'n weddill yno, gan roi manylion cyswllt yr ymwelwyr o'r Ukrain a phobl eraill iddo.

Erbyn hyn mae gan Archifau Morgannwg bresenoldeb ar wefannau rhwydweithio cymdeithasol Twitter (@GlamArchives) a Facebook (www.facebook.com/glamarchives).



Mae'r newyddion diweddaraf yn cael ei bostio ar y gwefannau ac mae papur newydd y Guardian yng Nghaerdydd, rhaglen Newyddion S4C a Wales Online wedi'u defnyddio ar gyfer straeon newyddion.



Y Casgliad

Derbyniwyd cyfanswm o 179 o eitemau newydd eleni. Mae asesiad o'r cyfraddau cronni yn cadarnhau bod yr ehangiad 25 mlynedd a ychwanegwyd at y gofod storio yn gywir ar hyn o bryd. Mae manylion llawn am yr eitemau a dderbyniwyd wedi'u rhestru yn Adroddiadau Chwarterol Archifydd Morgannwg sydd ar gael ar wefan Cyngor Sir Caerdydd. <http://bit.ly/IUwDtl>

Rydym yn parhau i dderbyn amrywiaeth ddiddorol o eitemau newydd. Dyma rai enghreifftiau o gofnodion unigolion a chymunedau yr ydym yn falch o'u cadw.

Papurau Terence O'Neill o Gaerdydd, Ymgyrchydd Plaid Cymru (D779)

Roedd Terence H O'Neill yn byw yn Nhredelerch ac roedd yn weithgar ym Mhlaid Cymru o ddiwedd y 1960au tan ei farwolaeth yn 2010. Roedd yn gweithio ledled Caerdydd, ond yn enwedig yn Llanrhymni a Cathays, etholaeth Caerdydd Canolog a'r Porth. Roedd yn ymgeisydd am sedd ar y cyngor neu'n asiant yn rheolaidd, a gweithiodd hefyd i Owen John Thomas, AC Canol De Cymru (1999-2007). Mae'r papurau yn cynnwys toriadau papurau newydd, cofnodion cyfarfodydd canghennau, taflenni a phapurau ymgyrchu.

Cofnodion Ysbyty Glowyr Ardal Caerffili (D824)

Agorodd yr ysbyty ym 1923 ar gost o £30,000 a godwyd gan lowyr lleol a dalodd 6d yr wythnos o'u cyflogau. Enwyd y wardiau ar ôl glofeydd lleol, ac roeddent yn gwasanaethu 24,000 o lowyr a'u teuluoedd yng Nghwm Rhymni. Mae'r casgliad yn cynnwys llyfrau cofnodion y Bwrdd Rheoli, 1929-1948, a llyfrau cofnodion Pwyllgor Meddygol Rhanbarth Cwm Rhymni, 1974-1983, yn ogystal ag adroddiadau a chyfrifon.

Llythyrau faciwiŷ (D828)

Cyflwynodd cyn athro Ysgol Gynradd Trealaw ddau focs o lythyrau a ysgrifennwyd mewn ymateb i apêl gan ddsbarth 6 yr ysgol ac a argraffwyd ym mhapur newydd y *Daily Mirror* ym mis Mehefin 1989. Mae'r llythyrau yn disgrifio profiadau pobl a gafodd eu symud yn blant yn ystod yr Ail Ryfel Byd, i'r Rhondda yn bennaf. O ganlyniad i'r apêl, cafodd y faciwiŷ aduniad yn yr ardal ym mis Medi 1989, a ffilmwyd y digwyddiad ar gyfer eitem newyddion gan Thames Television, gan fod llawer o'r faciwiŷ yn dod o dde-ddwyrain Lloegr; mae DVD o'r ffilm yn rhan o'r eitem.

Papurau Arthur Morgan Davies o Gaerdydd, Masnachlongwr (D775)

Roedd Arthur Morgan Davies yn byw yn Birchgrove, Caerdydd ac yn astudio yng Ngholeg Technegol Caerdydd cyn ymuno â'r Llynges Fasnachol ym 1927 a gwasanaethu ar sawl llong wahanol. Gwasanaethodd ar yr SS Margot yn ystod y rhyfel, gan helpu i gludo milwyr i Norwy ymysg pethau eraill. Bu farw ef a phawb arall ar y llong pan gafodd ei suddo gan long danfor Almaenig i'r dwyrain o Philadelphia ar 10 Ebrill 1942. Mae'r cofnodion yn cynnwys ei lyfr nodiadau fel myfyriwr, 1920au; ei nodiadau a'i gyfeirlyfrau fel llongwr, 1930au; gohebiaeth, telegramau a ffotograffau, 1935-1949; tystysgrif ryddhau, 1927-1942; Cyfnodolyn y Llynges Fasnachol, 1941-1944; llythyr gan y Brenin, tua 1945; sgrôl, 1948; papurau yn ymwneud â Chofeb y Llynges Fasnachol yn Tower Hill, 1955; toriadau papurau newydd, 1941-1991; papurau ymchwil, 2011.



Casgliad ffotograffau Remy Lloyd-Jones o'r Bont-faen (D785)

Ffotograffydd amatur sy'n byw yn y Bont-faen yw Remy Lloyd-Jones. Mae'r casgliad yn cynnwys ffotograffau o Gaerdydd, Bro Morgannwg a chymoedd Morgannwg; wedi'u trefnu'n 7 cyfrol gyda ffotograffau rhydd ychwanegol.

Axis Historical Society, Y Barri (D802)

Sefydlwyd yr *Axis Historical Society*, y Barri, gyda statws elusennol ym 1993 a derbyniodd grantiau gan y Loteri Genedlaethol i ddatblygu casgliad o eitemau hanesyddol a ddaeth yn sylfaen ar gyfer arddangosfeydd undydd rheolaidd. Mae'r cofnodion yn cyfeirio at sefydliadau, unigolion a digwyddiadau amrywiol yn y Barri, gan gynnwys: *East End Progressive Labour Club*, Clwb yr Ugeinfed Ganrif, Clwb Rhedwyr Traws Gwlad y Barri, rhaglenni Cymdeithas Gorawl y Barri, poster theatrau, toriadau papurau newydd ac ati. Mae rhywfaint o ddeunydd clyweledol yn rhan o'r casgliad hefyd.

Cymdeithas Trigolion Danescourt (D823)

Sefydlwyd Cymdeithas Trigolion Danescourt yn y 1980au gyda'r bwriad penodol o warchod buddiannau trigolion Danescourt. Ers ei sefydlu, mae wedi siarad ar ran y trigolion ac wedi codi llais i amddiffyn a datblygu amwynderau a gwasanaethau Danescourt. Mae'r cofnodion yn cynnwys cofnodion y pwyllgor, gohebiaeth, cyfrifon, cylchlythyrau, cynlluniau a phosteri, 1987-2003.

Papurau Trigolion Caerdydd yn erbyn y Morglawdd (D350)

Ymgyrchodd y grŵp hwn yn erbyn y morglawdd ar draws aber afon Taf ac afon Elái. Mae'r eitemau yn cynnwys cofnodion, 1989-2001, toriadau papurau newydd, adroddiadau swyddogol, holiaduron, ffotograffau, cynlluniau a phapurau Mesur Seneddol; maent hefyd yn cynnwys cofnodion Trigolion Treganna yn erbyn y Morglawdd, 1989-1991.

FORM A. OVERCROWDING SURVEY-PRELIMINARY ENUMERATION. REF. No. *A 88*

(1). ADDRESS OR SITUATION OF PREMISES *14 Harris Place Merthyr Tydfil*

(2). NAME OF OCCUPIER *Mary Ann Bunce*

(3). DESCRIPTION OF PROPERTY *Two storied house*

NAMES OF TENANTS AND SUB-TENANTS 4	NUMBER OF HABITABLE ROOMS 5	NUMBER OF PERSONS NORMALLY SLEEPING THEREIN 6		EQUIVALENT NUMBER OF PERSONS SLEEPING IN THE DWELLING 7(a)	PERMITTED NUMBER		WHETHER OVER-CROWDED 7(d)
		10 OR OVER	UNDER 10		ACTUAL 7(b)	REDUCED 7(c)	
<i>Mary Ann Bunce 51</i>	<i>1K</i>	<i>1</i>		<i>4 1/2</i>	<i>3</i>	<i>2 1/2</i>	<i>++</i>
<i>Agnes Bunce 24</i>	<i>1B</i>	<i>1</i>					
<i>William Frederick Bunce 16</i>	<i>2</i>	<i>1</i>					
<i>Margaret Bunce 14</i>	<i>2</i>	<i>1</i>					
<i>Margaret Bunce 3</i>	<i>Grand 2</i>		<i>1</i>				

FORM A. OVERCROWDING SURVEY-PRELIMINARY ENUMERATION. REF. No. *A 619*

(1). ADDRESS OR SITUATION OF PREMISES *16 Tramroadside Merthyr Tydfil*

(2). NAME OF OCCUPIER *William Rafferty*

(3). DESCRIPTION OF PROPERTY *Two storied house*

NAMES OF TENANTS AND SUB-TENANTS 4	NUMBER OF HABITABLE ROOMS 5	NUMBER OF PERSONS NORMALLY SLEEPING THEREIN 6		EQUIVALENT NUMBER OF PERSONS SLEEPING IN THE DWELLING 7(a)	PERMITTED NUMBER		WHETHER OVER-CROWDED 7(d)
		10 OR OVER	UNDER 10		ACTUAL 7(b)	REDUCED 7(c)	
<i>William Rafferty 18</i>	<i>1K</i>	<i>1</i>		<i>6</i>	<i>5</i>	<i>4</i>	<i>++</i>
<i>Edel Ann Rafferty 19</i>	<i>1W</i>	<i>1</i>					
<i>Rose Mary Rafferty 15</i>	<i>2</i>	<i>1</i>					
<i>Edel Ann Rafferty 13</i>	<i>2</i>	<i>1</i>					
<i>Margaret Elizabeth Rafferty 11</i>	<i>2</i>	<i>1</i>					
<i>Bonny Dorothy Rafferty 9</i>	<i>2</i>		<i>1</i>				
<i>Bunche Rafferty 8</i>	<i>2</i>		<i>1</i>				

ENUMERATOR *Richard Handley* DATE *20 January 1936*

Arolwg Gorlenwi Merthyr Tudful 1936 (Rhif Derbynnyn 2011/91)

Taflenni gwybodaeth manwl ar gyfer arolwg gorlenwi a wnaed o dan Ddeddf Tai 1935. Roedd yr arolwg yn cofnodi meddianwyr a pherchnogion eiddo, nifer y bobl oedd yn cysgu mewn ystafelloedd, nifer y teuluoedd mewn tŷ, nifer yr ystafelloedd trigiadwy, disgrifiadau a meintiau ystafelloedd, nifer y preswylwyr a ganiatawyd ac a oedd y tŷ yn orlawn.

Partneriaethau

Fel rhan o brosiect ar y cyd â'r cwrs ôl-radd mewn Gweinyddu Archifau ym Mhrifysgol Aberystwyth, cafodd cofnodion Capel y Bedyddwyr Bethania, Maesteg, eu catalogio gan fyfyrwyr fesul eitem, yn unol â chanllawiau Archifau Morgannwg a safonau priodol eraill. Ysgrifennodd y myfyrwyr adroddiad hefyd cyn gwneud cyflwyniad i asesu eu gwaith. Derbyniwyd ffolder yn cynnwys y gwaith hwn ynghyd â'r catalog ar ffurf electronig yn barod i'w gynnwys yng nghatalog electronig CALM.

Mae'r catalog electronig (CALM) wedi ei ddiweddarau. Ar hyn o bryd mae CALM ar gael ar fewnwyd Cyngor Sir Caerdydd trwy wefan Archifau Morgannwg, yn llyfrgelloedd Caerdydd ac mewn swyddfeydd dinesig.

Diolch i gymorth wirfoddolwyr bu modd i ni ddigideiddio achau teuluol ac erthyglau printiedig, a'u cysylltu â'r gronfa ddata. Maent hefyd wedi amgáu delweddau o ddogfennau lle maent yn bodoli, gan sicrhau bod y catalog yn fwy cyflawn a diddorol drwy wneud hynny. Mae'r Casgliad yn elwa ar wybodaeth a sgiliau gwirfoddolwyr sy'n wahanol i wybodaeth a sgiliau'r staff. Mae'r llyfrgell gyfeirio wedi'i rhoi ar gatalog electronig CALM yn ystod y flwyddyn diolch i gymorth gwirfoddolwyr sy'n llyfrgellwyr cymwysedig. Mae gwirfoddolwyr eraill wedi llwyddo i adnabod unigolion mewn ffotograffau ac wedi helpu i drefnu archifau sefydliadau yr oeddent yn perthyn iddynt. Mae cofnodion y Sgowtiaid a phapurau Bleddyn Williams wedi elwa ar sylw o'r fath.

Cadwraeth

Mae staff cadwraeth wedi ymdrin â 477 bocs o bapurau rhydd, 1,090 o gyfrolau, 172 o fapiau a 495 o ffotograffau. Disgrifir rhai o'r enghreifftiau mwy diddorol o driniaethau unigol isod.

Cafodd cynlluniau rheoleiddio adeiladu Cyngor Dosbarth Cwm Rhymni eu symud o'u storfa wael, eu glanhau a'u rhoi mewn bocsys newydd ar silffoedd yn yr ystafelloedd diogel.



Derbyniwyd cynllun o Aberdâr a gafodd ei baratoi ar gyfer sesiwn seneddol 1905 sy'n dangos y tramffyrdd arfaethedig a'r rheilffyrdd a oedd eisoes yn bodoli. Mae'r map yn cynnwys 17 o fapiau Arolwg Ordnans cyfan neu rannol wedi'u cysylltu â'i gilydd, ac fe'i trosglwyddwyd o Lyfrgell Aberdâr. Cafodd y map ei hoelio i hongiwyr pren ac mae'n mesur 3.10 o hyd a 2 fetr o led – un o'r eitemau mwyaf i gael ei drin hyd yn hyn gan y Tîm Cadwraeth. (D386/70-71)


<http://bit.ly/HAl6Y>



Mae ystâd a phapurau'r teulu Mathew, a oedd yn gysylltiedig ag ardal y Caribî, y fasnach siwgr a chaethwasiaeth, wedi'u cadw ers blynyddoedd lawer. Nid oedd yn bosibl gwneud gwaith cadwraeth hanfodol ar y papurau yn y gorffennol. Mae cynllun y blanhigfa wedi ymateb yn arbennig o dda i'r driniaeth. (DMW) Mae gwaith yn parhau ar lyfr lloffion y teulu Bruce, sy'n cynnwys cyfeiriadau at y Gemau Olympaidd diwethaf yn Llundain. Mae arbenigedd cadwraeth ar gael i gyrff ac unigolion allanol. Un enghraifft o hyn oedd y gwaith o atgyweirio lithograffau cyfrol brin o'r *Jungle Book* ar gyfer Prifysgol Caerdydd.



Mae'r Tîm Cadwraeth hefyd yn gyfrifol am waith y tu ôl i'r llenni yn monitro'r amgylchedd storio, glanhau a phecynnu, a sicrhau bod y Casgliad yn cael ei osod ar silffoedd a'i leoli yn briodol. Maent yn rhoi cod bar ar ddeunydd pecynnu i sicrhau bod y gronfa ddata yn nodi'r lleoliad yn gywir, oherwydd heb y system hon byddai dogfennau yn mynd ar goll i bob pwrpas. Maent wedi gweithio'n galed eleni i gyflwyno gwelliannau i'r systemau monitro, prosesau adrodd a rheoli, gan gynnwys datblygu modiwl CALM, sy'n cysylltu nodiadau cadwraeth yn ymwneud ag eitemau unigol â'r catalog electronig. Er bod yr holl waith hwn yn llai cyffrous o lawer na'r gwaith mainc manwl, mae'r un mor bwysig i sicrhau bod y cofnodion yn goroesi.



Rhannu sgiliau

Yng nghynhadledd flynyddol Materion Cadwraeth Cymru, dangosodd Dirprwy Archifydd Morgannwg y gwelliannau i'r gwaith o ofalu am gasgliadau sydd wedi deillio o'r arferion gwaith newydd yn y swyddfa bwrpasol. Cynhaliodd y Swyddog Cadwraeth weithdy cyhoeddus i egluro sut i ofalu am gofnodion a phryd i ofyn am gyngor a chymorth proffesiynol.

Mae staff Cadwraeth yn gweithio gyda chydweithwyr o Amgueddfa Cymru i rannu sgiliau ac arferion da drwy gyfres o sesiynau cyfnewid ac ymweliadau. Mae Llyfrgell Ganolog Caerdydd wedi cael cymorth i gwblhau Arolwg Asesu Cadwraeth o'i chasgliad o lawysgrifau pwysig. Cafodd Canolfan Ragoriaeth LHDT Cymru ganllawiau a chyngor ar gadwraeth a thrin dogfennau ar gyfer adran dreftadaeth ei gwefan.



Searchroom and Enquiries

Ymwelwyr: 6247

Mewn grwpiau: 2102

Grwpiau: 143

Ymholiadau: 3985

Ymweliadau â'r wefan: 10,409



Mae nifer yr unigolion sy'n defnyddio'r Swyddfa wedi bod yn gyson, ac fe gafwyd ychydig dros 4,000 o ymweliadau yn ystod y flwyddyn. Mae nifer yr ymholiadau o bell yn sefydlog o hyd ac mae'r defnydd gan grwpiau yn parhau i gynyddu. Roedd dros 2,000 o ymwelwyr yn aelodau o grwpiau.

Mae system ffôn awtomatig wedi'i chyflwyno i sicrhau triniaeth gyfartal ar gyfer pawb sy'n gwneud ymholiad o bell. Mae galwadau ffôn i'r brif swyddfa bellach yn cael eu hateb gan system ddwyieithog sy'n rhoi manylion yr oriau agor, y cyfeiriad e-bost a chyfeiriad y wefan ynghyd â'r dewisiadau cyswllt uniongyrchol ar gyfer pobl sy'n rhoi eitemau a'r rhai sy'n holi am gadwraeth. Os yw'r rhai sy'n ffonio yn dymuno disgwyl, cânt eu trosglwyddo i staff gweinyddol, ac os na allant ateb y cwestiwn, maent yn cofnodi'r neges yn y system ymholiadau o bell at sylw aelodau'r tîm Mynediad. Pan na fydd modd ateb galwadau ffôn, caiff y rhai sy'n ffonio eu trosglwyddo i neges llais sy'n ymddangos fel ffeil e-bost ar system y swyddfa sy'n cael ei monitro'n rheolaidd. Mae'r amser sy'n cael ei dreulio yn ateb ymholiadau syml ar y ffôn wedi lleihau'n sylweddol wrth i fwy o bobl ddod o hyd i atebion ar y wefan neu e-bostio eu cwestiynau. Mae'r system yn parhau i gael ei hadolygu a bydd gwelliannau yn cael eu hychwanegu.

Mae'r tîm Mynediad yn ymdrin ag amrywiaeth enfawr o ymholiadau bob dydd. Mae ymchwilydd academaidd wedi archwilio amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys ffasiwn menywod, pier Penarth, trydaneiddio Caerdydd, John Wesley, iechyd yng nghefn gwlad Morgannwg yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, y gosb eithaf, tir ôl-ddiwydiannol wedi'i halogi a'r gwaith o'i adfer, cyfraniad ffoaduriaid Iddewig at economi Prydain ar ôl y rhyfel, cadw cofnodion dwbl yng Nghwmni Haearn Dowlais a bywydau menywod yng Nghymru cyn 1550. Defnyddiodd hanesydd swyddogol y Cyd-bwyllgor Gwybodaeth y catalog o bapurau AS lleol; mae cwmnïau teledu wedi gofyn am wybodaeth am ddiwydianeiddio Merthyr Tudful a mynediad i gofnodion yr heddlu ar gyfer drama ddogfen yn seiliedig ar Butetown yn y 1930au. Mae awduron a gwfeistri wedi ymchwilio i Islam ym Mhrydain, model o'r car *Batmobile* gan Corgi, parciau lleol, arhosiad Sisley yn yr ardal, a Guy Gibson a oedd yn enwog am ei ran yng nghyrch y '*Dam Busters*'. Mae'r ymholiadau mwy anarferol wedi cynnwys dilysu planhigion Cymreig cynhenid ar gyfer rhywun yn creu gardd ffrwythau a llyisiau Gymreig a'r posibilrwydd bod UFO wedi'i weld ar Fynydd Caerffili ym mis Mai 1909. Mae'n debyg mai hanesydd yr heddlu a wisgodd iwniform hanesyddol go iawn sy'n haeddu'r wobr am yr ymchwilydd mwyaf anarferol!



Mae hel achau teuluol yn bwnc poblogaidd iawn, ond anaml iawn y bydd yn fater syml. Ymysg yr hynafiaid sydd wedi'u canfod y mae'r fydwraig gyflogedig gyntaf yn y Rhondda a rhyddfreinwyr yn Llantrisant. Mae pobl wedi darllen cofnodion cwest i chwilio am wybodaeth am farwolaethau damweiniol, hunanladdiadau a llofruddiaethau. Mae'n braf nodi bod un ymchwiliad llwyddiannus wedi arwain at aduniad teuluol:

'Mae fy nhad a'm chwaer wedi siarad gyda'i gilydd bellach a byddaf yn mynd ag ef i Gymru i'w chyfarfod y penwythnos nesaf! Mae'r ddau yn hynod falch o adfer eu cysylltiad ar ôl bron i 50 mlynedd. Diolch eto am eich gwaith caled yn dod o hyd i'r wybodaeth i mi.'

Darpariaeth addysg

Ysgolion

Mae ymweliadau gan ysgolion cynradd wedi parhau, ac rydym wedi croesawu dwsin o ddsbarthiadau o:

Caerffili: Hengoed

Caerdydd: Parc Ninian (2), Kitchener (2), Mount Stuart (5).

Rhondda Cynon Taf: Cwm Clydach, Tonypandy.

Mae'r broses o ymgysylltu ag ysgolion yn ardal ddifreintiedig de Caerdydd wedi parhau, ac mae'n ganlyniad uniongyrchol i'r prosiect partneriaeth gyda'r Archifau Seneddol, ac mae wedi rhoi boddhad mawr. Rydym yn gweithio i ddatblygu mynediad ar gyfer ysgolion o'r tu allan i'r ddinas. Rydym yn gallu darparu gwasanaethau i ysgolion trwy gyfrwng y Gymraeg hefyd.

Mae gweithdy ar thema'r Fictoriaid wedi'i ddatblygu ar gyfer myfyrwyr Cyfnod Allweddol 2 ac mae'n cyferbynnu bywydau pobl gyfoethog a phobl dlawd, o Ardalydd Bute yng Nghastell Caerdydd â'i 70 o weision, i deuluoedd yn byw mewn tai â thoiledau'r tu allan a phlant yn gweithio yn bedair ar ddeg oed. Roedd y plant wrth eu bodd yn cymharu rheolau a gwisg lai ffurfiol eu hysgol nhw â'r rhai mewn ysgolion Fictoriaidd, gan fynd ati i ddilyn cyfarwyddiadau ysgol Fictoriaidd yn frwdfrydig. Caiff sesiynau eu teilwra ar gyfer ysgolion unigol drwy ddefnyddio adnoddau sylfaenol fel mapiau, cofnodion y cyfrifiad a ffotograffau. Mae hyfforddeion CLOCH wedi digideiddio'r adnoddau hyn i'w defnyddio gyda'r bwrdd gwyn rhyngweithiol, ac mae gweithdy ychwanegol wedi'i greu ar yr Ail Ryfel Byd.

Mae staff yn gallu defnyddio'r bwrdd gwyn i uwchleuo geiriau, ymadroddion a hyd yn oed darnau mawr o destun mewn dogfen, sy'n helpu'r plant i ganolbwyntio ar y pwnc dan sylw ac yn ychwanegu at werth y sesiwn. Mae'r plant yn parhau i gael y cyfle i weld a thrafod dogfennau gwreiddiol er mwyn eu helpu i ymgysylltu â'r gorffennol mewn ffordd fwy uniongyrchol.

Ar gyfer myfyrwyr ysgolion uwchradd, mae'r Archifau wedi cynnal ymweliadau Byd Gwaith a drefnwyd gan Bartneriaeth Addysg Busnes Gyrfa Cymru. Mae myfyrwyr Blwyddyn 9 yn cael taith o gwmpas yr adeilad, gan gwblhau llyfryn gwaith ar yr un pryd sy'n archwilio'r gyrfaoedd sydd ar gael yn y maes a'r sgiliau gofynnol. Mae'r Bartneriaeth Addysg Busnes yn gweithredu yn hen ardal Morgannwg Ganol ac roedd yr holl ymweliadau eleni gan ysgolion yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf:

Ysgol Gyfun Blaengwawr (2 grŵp)

Ysgol Uwchradd y Ddraenen-wen


Ysgol Gyfun Treorci

Bydd y bartneriaeth lwyddiannus hon yn parhau yn y dyfodol. Mae costau cludiant wedi rhwystro rhai ysgolion rhag cymryd rhan, yn enwedig ysgolion sy'n bellach i ffwrdd. Er mwyn goresgyn y broblem hon, aethom ati i gyflwyno cais llwyddiannus am grant bach i CyMAL (corff Llywodraeth Cymru ar gyfer archifau, amgueddfeydd a llyfrgelloedd). Gall ysgolion wneud cais am gyfraniad at y gost o logi coets, ac rydym yn gobeithio y bydd hyn yn annog pawb o fewn ein dalgylch i ymweld â ni.



Addysg uwch

Cynhaliwyd gweithdy ar gyfer ôl-raddedigion ym Mhrifysgol Caerdydd er mwyn cynnig cyngor ar sut i fanteisio'n llawn ar ymweliad. Trefnodd staff Adran Hanes Prifysgol Caerdydd weithdy ar y problem o ddod o hyd i lais cleifion yng nghofnodion sefydliadau seiciatrig. Mae myfyrwyr MA mewn Hanes ym Oesoedd Canol ym Mhrifysgol Caerdydd wedi gweld llawysgrifau canoloesol o gasgliad Llyfrgell Caerdydd. Trefnwyd sesiwn debyg ar gyfer israddedigion hanes o UWIC.



Fodd bynnag, mae gwasanaethau ar gyfer y sector addysg uwch bellach yn ymestyn y tu hwnt i adrannau hanes yn unig. Roedd gweithdy ar gyfer arlunwyr a fynychwyd gan fyfyrwyr UWIC yn defnyddio dogfennau â nodweddion gweledol er mwyn sbarduno dychymyg y myfyrwyr ar gyfer prosiectau celf yn y dyfodol. Cafodd myfyrwyr y cwrs MA mewn ysgrifennu creadigol yn UWIC gyfle i weld dogfennau a fydd yn eu hysbrydoli i ysgrifennu storïau a barddoniaeth o bosibl. Cafodd myfyrwyr Ysgol Pensaerniaeth Cymru gymorth ar gyfer eu prosiect ymchwil diweddaraf, 'Amodau Trefol' sy'n canolbwyntio ar ailddatblygiad posibl Pontypridd. Mae teithiau cyfrwng Cymraeg ac arddangosfeydd o ddogfennau Cymraeg wedi'u trefnu ar gyfer myfyrwyr Adran y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd hefyd.

Mae'r Grŵp *First Friday* ar gyfer myfyrwyr ymchwil wedi aildechrau ac mae cynlluniau ar waith ar gyfer rhaglen o ddogwyddiadau a fydd yn fuddiol ac yn ddiddorol i'r aelodau.

Ydych chi'n chwilio am rywle i gynnal eich cyfarfod, seminar neu sesiwn hyfforddi? Mae gan Archifau Morgannwg ystafell i'w llogi.

Mae llogi yn cynnwys defnydd o fwrdd gwyn rhyngweithiol. Rhyngrwyd di-wifr. Tymheru awyr. Celfi cyfnewidiadwy. Dolen clywed. Maes parcio am ddim. Trefni arlwyyaeth.



Dull ystafell bwrdd – mwyafrif 20 person

Costau llogi ystafell

Llun i Gwener, 9yb-5yh:
Diwrnod llawn £90
Hanner diwrnod £50
Cost fesul awr £15 yr awr

Cysylltwch a ni am fwy o wybodaeth ar costau penwythnos a gyda'r nos.




'Seatables' - Mwyafrif 30



Dull cabaret - Mwyafrif 40 person



Dull darlith - Mwyafrif 55 person



S Edwards

Susan Edwards
Archifysydd Morgannwg



Archifau Morgannwg
Clos Parc Morgannwg
Caerdydd
CF11 8AW



Glamro@cardiff.gov.uk



www.archifauorgannwg.gov.uk



029 2087 2200



www.facebook.com/glamarchives



@GlamArchives

